

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd disymwrth am farwolaeth Mr Gwilym Foulkes (Plas, Nantglyn gynt), un o aelodau hynaf yr Ofalaeth a oedd yn 95 oed. Fe'i cofiwn am ei anwylded a'i sgwrs ddifyr hyd at y misoedd diwethaf hyn. Diolchwn amdano ac am y gofal a gafodd ers iddo symud ac ymgartrefu yng Nghartref Dolwen tua blwyddyn yn ôl, ac i bawb arall fu'n dda wrtho ef a'i frawd ar hyd y blynyddoedd.
- Estynnwn ein cofion heddiw at y rhai sy'n parhau yn Ysbyty Glan Clwyd – Doreen Evans (Tanyfron), Menna Owen (Cefn Meiriadog) ac Aled Roberts (Henllan), ac yn ei ôl yno y bu'n rhaid i Bob Edwards (Groes) ddychwelyd. Parhawn i gofio hefyd am Harold Lloyd (Tanyfron) yn Ysbyty Bae Colwyn. Cafodd Lowri Roberts (Llansannan) lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn anffawd ddydd Sadwrn diwethaf ond mae hi bellach wedi cael dod adre ar ôl treulio nifer o ddyddiau yn yr ysbyty. Cofiw'n am nifer o aelodau eraill sydd heb fod yn dda eu hiechyd hefyd ac sydd angen ein gweddiâu. Cyflwynwn bob un ohonynt, ynghyd â'u teuluoedd, i ofal yr Arglwydd gan ddeisyf Ei nodded a'i nerth iddynt.
- Llongyfarchiadau i Llyr Davies (Nantglyn) ac Ibolya ar enedigaeth eu mab, Aron Huw, brawd bach i Nia Mira. Diolchwn i Dduw gyda hwy am ei ddaioni.

I sylw athrawon Ysgolion Sul Gofalaeth Bro Aled

Noson o hyfforddiant

ar gyfer POB athro/athrawes Ysgol Sul yn yr Ofalaeth

(plant, ieuenctid ac oedolion)

yng Nghapel Henllan,

Nos Fawrth, Tachwedd 22ain am 7.00

pryd y bydd Aneurin a Rhodri yn rhoi arweiniad
i'r maes llafur sydd wedi ei osod ar gyfer 2012.

I ddod

- **Cwrdd Chwarter yr Annibynwyr** yn cyfarfod nos Iau, Tachwedd 24ain am 7.00 yn Eglwys Crist, Abergel. Yn dilyn y materion ffurfiol, ceir anerchiad gan Lywydd y Cwrdd Chwarter, Mr Rhodri Eckley ac yna fe weinyddir y cymun gan y Parch. Ifor ap Gwilym.
- **Cyflwyniad Dramatig 'YR ORDEINIAD CYNTAF YN Y BALA 1811'** gan Gwmni Capel Tegid a'r Cylch, nos Sul Tachwedd 27ain yng Nghapel Mawr, Dinbych am 7.30. Mynediad £3 wrth y drws.
- **Cyfarfod i Flaenoriaid yr Ofalaeth** nos Lun, Tachwedd 28ain yng Nghapel Llanefydd am 7.30.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13^{eg} Tachwedd 2011

Cofiwch am y cyflwyniad i raglen Dorcas
gan y Parch. Meirion Morris yng Nghanolfan
Seion, Dinbych nos Fawrth am 7.00.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Rydan ni'n gorffen y gyfres y saith arwydd yn Efengyl Ioan heno. Dewch draw os medrwch chi eto. Roedd hi'n braf gweld cynulleidfa dda yno nos Sul diwethaf, a diolch i John a Gwen am eu cyfraniad.

Mae'r seithfed arwydd yn mynd â ni at fedd Lasarus ac at deulu bach Bethania sydd mewn profedigaeth. Mae'r Iesu yn datguddio y gwirionedd amdano'i hun i Martha pan ddywed "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd" ac mae o'n herio Martha wrth ofyn y cwestiwn "A wyt ti yn credu hyn?" Er i'r Iesu atgyfodi Lasarus, y wyrth fawr yw bod nifer o bobl wedi dod i gredu yn Iesu. Mae credu yn wyrth. Trwy ddatguddiad Duw yn unig yr ydym yn dod i gredu. Gweddiwn y bydd llawer heddiw yn clywed yr Efengyl ac yn dod i gredu o'r newydd neu i ddyfnhau eu cred.

Wrth baratoi Llais Bro Aled yr wythnos yma, mae gennyf ryw cynnwrf yn fy nghalon oherwydd bod penwythnos eithriadol o bwysig ar y gorwel. Cyfeirio yr ydwyf at benwythnos CIC yn y Bala. Ychydig fisoedd yn ôl yr oedd yna ddiwrnod o weddi yn y Bala a bu nifer ohonom yno yn cefnogi staff y Coleg trwy ymroi i weddi ac ymbil dros ieuenctid Cymru. Yr hyn sy'n gynhyrfus am y penwythnos o'n blaenau yw fod Duw wedi ateb ein gweddiâu a bod yn agos i 80 o ieuenctid wedi ymrwymo i fynd i Goleg y Bala i gyfarfod â'i gilydd a – ni â obeithiwn – i gyfarfod â'r Iesu. Chafwyd erioed y math yma o rif o ieuenctid yn mynd i Goleg y Bala hefo'i gilydd a bu'n rhaid i'r Coleg gael lle ychwanegol iddynt fedru darparu ar eu cyfer. Mae'n siŵr erbyn i chi fod yn darllen Llais Bro Aled y bydd y rhan fwyaf o'r penwythnos drosodd i'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc, ond dydi hi ddim yn rhy hwyr i weddio. Gweddiwn y bydd y Gair a'r newyddion da am yr Un sydd yn atgyfodiad a bywyd yn gwreiddio yng nghalonau'n pobl ifanc ac y byddant yn dod i brofi gwefr y wyrth o gredu drostynt eu hunain. Yn yr Efengyl, nid rhoi blas ar Dduw yw'r nod ond cyfranogi o'r bywyd tragwyddol sydd yn Iesu Grist. "A wyt ti yn credu hyn?"

Mae hi heddiw yn Sul y Cofio a gweddiwn yn daer dros heddwch byd a thros y sawl sydd wedi colli anwyliaid yn ystod rhyfeloedd mawr a mân. Cofiw'n siars yr Iesu i weddio dros ein gilydd ac i weddio hefyd dros ein gelynon. Trwy weddi y mae Duw yn delio efo'n holl gyflyrau oherwydd y mae gweddi daer yn ein harwain o hyd at groes Calfaria a rhyfeddod yr hyn a ddigwyddodd yno.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **Adnabod Be Nesa?** Cyfarfod hefo Rhodri a Huw Tan y Graig yn y Granar yn Llansannan am 7.30 i'r criw gafodd eu derbyn yn aelodau yn ddiweddar ac ar gyfer ieuencid 15+.
- Mawrth • **Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghanolfan Seion, Dinbych am 7.00 yng nghwmni y Parch. Meirion Morris fydd yn dod i gyflwyno y rhaglen Dorcas. Gofynnir yn garedig am o leiaf ddau gynrychiolydd o bob eglwys.
- Mercher • **Adnabod – Noson gymdeithasol** yn Heulfryn, Llansannan am 8.00. Croeso i bawb.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
• Bydd **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yn Nghapel Mynydd Seion, Abergele am 6.00.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Celfyn Williams fydd yn arwain, a bydd Aneurin a Rhodri yn adolygu'r gyfres a gafwyd ar yr arwyddion a geir yn Efengyl Ioan. Bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00 a byddwn yn ymgynnull ger y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50. Bydd Ysgol Sul y plant am 10.00.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma SYLWCH: Bydd Aneurin yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac oedfa fedydd yn Saron am 2.00 pryd y bydd Arfon a Mari yn cyflwyno Elsi Thea i gael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Steffan Morris yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Mr Owain Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd gwasanaeth Sul y Cofio wrth y gofgolofn am 10.50. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Iau Bydd Cymdeithas Cefn Berain yn cyfarfod am 7.30. Y gŵr gwadd fydd Mr Iwan Price, Cerrigydrudion.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau